| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Gorffennaf 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh, Pennaeth Cyllid** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Ariannol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf, yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ac i gadarnhau cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2016/17.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Aelodau i nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2016/17 (manylir arni yn **Atodiad 1**). Cyllideb refeniw net y cyngor yw £185.062m (£184.756m yn 15/16). Rhagwelir bod gorwariant o £0.402m ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol. Amlinellir y risgiau a'r tybiaethau sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6.

Cytunwyd ar arbedion o £5.2m fel rhan o'r gyllideb a gweler crynodeb o'r arbedion yn **Atodiad 2** sy'n cynnwys asesiad cychwynnol o'r cynnydd gydag arbedion 2016/17. Dengys yr asesiad ar y cam cynnar hwn bod 42% o arbedion eisoes wedi eu cyflawni, gyda 25% o arbedion pellach yn gwneud cynnydd da (gan ei gwneud yn debygol y bydd cyfanswm o 67% yn cael ei gyflawni). Mae rhagor o waith manylach ar y gweill ynghylch nifer yr arbedion sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, bydd y canlyniadau yn cael eu hadrodd mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllideb gytunedig yn tanategu gweithgaredd ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ceir gwybodaeth ar wasanaethau sylweddol yn y paragraffau canlynol.

Amcanestynnir bod **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** ar hyn o bryd yn mynd i orwario £138k. Mae'r pwysau oherwydd costau diswyddo, costau rhyddhad sy'n uwch na ragwelwyd ac oedi o ran cyflawni arbedion. Mae'r arbedion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o arbedion 16/17.

Mae **Cyllid** yn rhagweld tanwariant o £37k oherwydd swyddi gwag. Mae'r swyddi gwag yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn helpu i sicrhau'r arbedion angenrheidiol ar gyfer 2017/18, gan sicrhau ar yr un pryd bod y gwasanaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth yn ystod cyfnod economaidd anodd i'r cyngor.

**Gwasanaethau Amgylchedd a Phriffyrdd** - Er bod gorwariant o £300k wedi'i gofnodi ar gyfer y gwasanaeth hwn, dim ond ffigur dangosol yw hynny ar hyn o bryd. Mae'r rhesymau dros gynnwys gorwariant ar y cyfnod hwn yn driphlyg:

- Cludiant Ysgol - bwriad y polisi newydd sy'n berthnasol ers mis Medi 2015 oedd datrys y pwysau parhaus ar y gyllideb yn y maes hwn, wedi bod yn destun nifer o apeliadau o amgylch cymhwysiad y polisi. Bydd datrys y problemau yn cynnwys cynnydd mewn costau Cludiant Ysgol yn barhaus yn ogystal â chostau cyfreithiol penodol unwaith ac am byth.
- Bydd costau ychwanegol oherwydd methiant diweddar cwmni bysiau lleol. Mae cynlluniau ar waith i ymdrin â llwybrau ysgol a chludiant cyhoeddus, ond bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig, er yn y cyfnod cynnar hwn dim ond amcangyfrifon sydd ar gael.
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn wynebu pwysau ynghylch contract Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru - mae'r gwasanaeth wedi lleihau costau er mwyn cyfyngu ar effaith y gostyngiadau mewn incwm ffioedd sy'n hysbys ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae risg o ostyngiadau pellach yn parhau i fod mewn incwm a lefelau gwaith.

Er nad oes unrhyw amrywiannau penodol yn cael eu hadrodd ar wasanaethau eraill ar hyn o bryd rhagwelir y bydd angen i'r gwasanaethau canlynol i nodi camau rheoli er mwyn cynnwys y pwysau canlynol o fewn y gyllideb gyffredinol:

- **Gwasanaethau Cymunedol** - pwysau chwyddiant megis gweithredu'r Cyflog Byw Gwladol (LlGC) statudol a fydd yn arwain at gynnydd mewn ffioedd cartref gofal. Er y gobaith yw bod modd cynnwys y pwysau yn

16/17 o fewn y cyllidebau presennol a thrwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, bydd y cynnydd blynyddol mewn LlGC yn achosi pwysau sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Mae Gwasanaethau Cymunedol wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn o £0.386m yn 2015/16 mewn ymateb i bwysau o'r fath ac ar hyn o bryd rhagwelir y bydd angen i'r gwasanaeth i ddefnyddio oddeutu £1m o arian wrth gefn yn 2016/17. Mae'r pwysau hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gyllideb 2017/18 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig.

- Hefyd mae nifer o gyllidebau a arweinir gan alw yn parhau i fodoli ac felly ceir cyllidebau anweddol megis **Lleoliadau Plant**. Mae cronfeydd wrth gefn wedi eu rhoi ar waith i helpu i reoli amrywiadau blynyddol, fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn feysydd o risg yn 16/17 a thu hwnt a byddant yn cael eu monitro'n fanwl.

Er hynny, mae gan wasanaethau hefyd lefel iach o gronfeydd wrth gefn penodol ac wedi cael caniatâd i gario tanwariant gwasanaeth arwyddocaol drosodd sydd wedi'u nodi yn llawn yn yr Adroddiad Alldro Terfynol ar gyfer 2015/16. Hefyd, fel rhan o'r broses gyllideb 16/17 mae cronfa wrth gefn i gyflenwi cyllideb ar gyfer blwyddyn yn unig o £486k wedi'i neilltuo i liniaru'r risgiau i gyflwyno'r gyllideb gan gynnwys unrhyw oedi wrth gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae adolygiad llawn o'r holl bwysau gwasanaeth a strategol yn ystod y flwyddyn ac yn y dyfodol ar hyn o bryd yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses gyllideb 2017/18. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn yn cael ei adrodd i'r Aelodau yn yr hydref.

**Corfforaethol** - Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cynnwys arbedion gyda tharged o £1m ar gyfer 2017/18. Mae'n debygol y bydd rhai o'r arbedion hyn yn cael eu nodi a'u cyflawni yn ystod 2016/17. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Aelodau yn ystod y misoedd nesaf.

**Ysgolion** - Er bod ysgolion yn derbyn gwarchodaeth o 1.85% (£1.173m) maent hefyd wedi gorfod dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd i ariannu pwysau chwyddiant o tua £2.5m. Fel yr adroddwyd y mis diwethaf mae'n debygol y byddai'r gostyngiad mewn balansau Ysgolion a welwyd yn ystod 2015/16 yn parhau yn 2016/17. Mae asesiadau cychwynnol o falansau a ragwelir yn dangos ar ddiwedd mis Mehefin bod yr amcanestyniad ar gyfer balansau ysgolion yn ddiffyg balans net o £0.687m, sef gostyngiad o £2.249m ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2015/16 (£1.562m). Ar hyn o bryd mae ysgolion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Cyllid Addysg ar gynlluniau ariannol manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ac ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol i gyflwyno cyllidebau cytbwys tymor hir. Bydd y Cabinet yn derbyn rhagor o fanylion ar gynnydd y broses yn fisol drwy'r Adroddiad Cyllid.

**Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** Mae'r sefyllfa refeniw diweddaraf yn rhagdybio cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £257k sydd yn unol â'r cynnydd a gyllidebwyd o £257k. Rhagwelir balansau CRT i fod yn £2.861m ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb Cyfalaf o £11.8m yn cael ei ddyrannu rhwng gwelliannau arfaethedig i stoc dai presennol (£8m) a datblygiadau adeiladu newydd (£3.8m).

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyca'r Cyngor yn £190.165m ar gyfradd gyfartalog o 4.95%. Roedd balansau buddsoddi yn £5.9m ar gyfradd gyfartalog o 0.25%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn amgaeedig fel **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £34.5m gyda gwariant hyd yn hyn o £4.4m. Hefyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 yw'r gwariant arfaethedig o £31m ar y **Cynllun Corfforaethol**. Mae **Atodiad 4** yn rhoi diweddariad ar y prosiectau mawr sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

Cronfeydd arian parod wrth gefn y **Cynllun Corfforaethol** ar ddechrau 2016/17 yw £2.050m. Mae hyn ar ôl ystyried arian wedi'i ymrwymo a'i drosglwyddo eisoes i'r cynllun cyfalaf i ariannu gwariant yn 2016/17 o £7m. Gan ganiatáu ar gyfer cyllid a ragwelir a gwariant ychwanegol yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir mai balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yw £4.7m.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer pob cynnig perthnasol a gynhwysir yng Nghyllideb 2016/17.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, UDA, Briffio Cabinet a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Adolygwyd cynigion penodol gan bwyllgorau archwilio. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac i ystyried cynigion y gyllideb. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Gwasanaeth Lleol ar y cyd. Mae pob aelod o staff wedi'u hysbysu am y broses gosod y gyllideb ac mae'r cyngor wedi ymgynghori neu'n bwriadu ymgynghori'n llawn â'r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor. Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur trwy'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau yn ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn enwedig o ystyried maint y gostyngiadau yn y gyllideb sy'n ofynnol yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae pwysau penodol yn amlwg ar gyllidebau gofal cymdeithasol ond bydd yn cael ei gynnwys yn y flwyddyn gyfredol a'i ystyried fel rhan o broses y gyllideb ar gyfer 2017/18. Mae rhagolygon yn dangos y bydd balansau ysgolion yn parhau i ddirywio a bydd y sefyllfa yn cael ei adolygu'n agos.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae’n parhau i fod yn gyfnod ariannol heriol a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli cyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei gyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol.